**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL**

**3 Chwefror 2021**

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker BEM, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am –12.40pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss, Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd Dr R Plummer bod ganddo fuddiant personol ond heb fod yn rhagfarnus yn adroddiad 02/21 Cynllun Corfforaethol 2021/22, ac yn adroddiad 03/21 Siarter Creu Lleoedd ond parhaodd yn bresennol yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar y materion dan sylw.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2$^{ail}$ o Ragfyr 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Nodwyd bod gwall argraffyddol yn y paragraff olaf ond un o Gofnod 13 yn y fersiwn Saesneg (y gair remint yn hytrach na remit). Hefyd yn yr un paragraff ynglŷn â'r mater bod yr Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gorfod talu treth ar gostau teithio a chynhaliaeth, bod brawddeg yn cael ei hychwanegu i nodi bod y mater hwn yn parhau dan ystyriaeth ac yn cael ei ddilyn ymhellach drwy lwybrau eraill.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2$^{ail}$ o Ragfyr 2020 yn unol â'r newidiadau uchod.

**4. Materion yn codi**
a) <u>Rhybudd o Gynnig - Gwasanaeth Mentor (Cofnod 7)</u>
Nodwyd bod Pwyllgor Personnel Eithriadol wedi ystyried y cynnig ar 13 Ionawr 2021 (gweler Cofnod 6 (iii)) ac roedd grŵp bach wedi'i ffurfio i drafod y ffordd orau o weithredu'r gwasanaeth hwn. Byddai'r Cynghorydd Kidney yn mynychu'r cyfarfod drannoeth o Fforwm Cynrychiolwyr Staff yr Awdurdod i gyflwyno'r cynnig, a byddai'r cynnig wedyn yn dychwelyd gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Personnel yn y dyfodol.

**NODWYD.**

b) Prynu tir fel rhan o'r Cyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Lleihau Carbon a Chynnal Bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol (Cofnod 11)
Dywedodd y Prif Weithredwr bod prynu'r tir yn mynd rhagddo'n hwylus a'r disgwyl oedd y byddai'r contract yn cael ei lofnodi yn yr wythnos nesaf.

**NODWYD.**

c) Penodi Swyddog Diogelu Data (Cofnod 15)
Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r dyddiad cau ar gyfer tendrau am y swydd oedd y diwrnod hwnnw. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau bod y Swyddog Dros-dro yn cael ei chefnogi i sicrhau bod ei llwyth gwaith yn cael ei reoli'n briodol.

**NODWYD.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau ers y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Serch hynny dywedodd ei fod wedi mynychu dau gyfarfod o Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru oedd wedi trafod materion megis Brexit a chyllido gan yr UE; roedd y Fforwm hefyd wedi lansio'r Maniffesto Gwledig. Hefyd roedd wedi cyfarfod â Chyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yng nghwmni'r Prif Weithredwr.

Yn ogystal, roedd y Cadeirydd wedi mynychu seminar deuddydd ar-lein gan Gyfoeth Naturiol Cymru dan yr enw "Ein Harfordiroedd a'n Moroedd", a hefyd digwyddiad ar-lein ar Ddolydd Sir Benfro a drefnwyd gan Plantlife Cymru pan gafwyd cyfraniadau clodwiw gan Swyddogion Cadwraeth yr Awdurdod. Roedd y Cynghorydd Harries wedi derbyn copi o gylchlythyr electronig yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, a byddai'n trefnu i'r cylchlythyr hwn gael ei ddosbarthu i bob Aelod.

Diweddodd drwy ddiolch i'r Aelodau ac i'r staff am eu cefnogaeth barhaus yn yr amgylchiadau anodd oedd ohoni, gan obeithio eu bod hwy a'u teuluoedd yn cadw'n ddiogel.

**NODWYD.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020;
(ii) Y Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd ac ar 24 Tachwedd 2020;
(iii) Pwyllgorau Personnel a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020 ac ar 13 Ionawr 2021;
(iv) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2020.

Nodwyd bod y Pwyllgor Adolygu Gweithredol wedi derbyn adroddiad diddorol ar y defnydd a wnaed o Lwybr yr Arfordir yn ystod 2020, ac roedd yr Aelodau'n meddwl tybed a fu cynnydd yn y defnydd o'r rhwydwaith o lwybrau mewndirol yn ystod y cyfnod clo. Cytunodd y Prif Weithredwr i ofyn i'r Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy gyflwyno'r ffigurau i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi/mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2021/22**

Roedd yr adroddiad yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2021/22 a'r rhagamcanion ar gyfer 2022/23 i 2025/26, yr ardoll 2021/22 drafft ar Gyngor Sir Penfro, y Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22.

<u>Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf Drafft 2021/22 a'r Rhagamcanion ar gyfer 2022/23 i 2025/26</u>

O ran y cyllidebau ar gyfer 2021/22, roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, ac fel yr oedd yr Aelodau wedi'u trafod yn flaenorol mewn gweithdy ar baratoi cyllideb. Roedd disgwyl i sefyllfa gyfredol y gyllideb refeniw am 2020/21 barhau yn unol â'r sefyllfa o adennill costau a nodwyd yn y gyllideb a gymeradwywyd fis Chwefror 2020, er gwaethaf y ffaith bod sefyllfa ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn gyfredol wedi wynebu ansicrwydd ac ansefydlogrwydd sylweddol. Er y rhagwelwyd y byddai'r gyllideb yn cael ei chydbwyso drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, roedd colli incwm o ganlyniad i'r cyfnod clo Covid-19 wedi'i ddigolledu gan Lywodraeth Cymru a chynlluniau grant eraill, gan olygu y byddai £110k yn cael ei ddychwelyd i'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Dywedwyd bod Cyllideb Ddrafft 2021-22 Llywodraeth Cymru yn awgrymu y byddai'r Grant Parc Cenedlaethol ar gyfer y tri Pharc Cenedlaethol yn cynyddu 10% ar gyfer y flwyddyn 2021/22 ac yn dychwelyd i'r lefel 20/21 ar gyfer y blynyddoedd dilynol; roedd disgwyl y gyllideb derfynol fis Mawrth 2021. Er y byddai'r Grant Parc Cenedlaethol/Ardoll yn cynyddu ar gyfer 2021/22, roedd codiadau yn y dyfodol yn ansicr, a nodwyd bod y

grant wedi dangos gostyngiad cyffredinol ers 2010/11. Roedd dadansoddiad a rhagolygon sensitifrwydd wedi'u gwneud o ran y senarios a amlinellwyd gan roi'r sefyllfa bosibl yn y gyllideb refeniw hyd at 2025/26 (nid 2024/25 fel y nodwyd yn yr adroddiad).

Roedd yr Awdurdod wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd dros y blynyddoedd diwethaf drwy wneud arbedion sylweddol yn y costau gweithredu (yn benodol costau gweithwyr), cynyddu incwm o ffynonellau eraill, a denu grantiau ar gyfer prosiectau penodol. Darparwyd cyllideb refeniw gryno a manylach ar gyfer 2021/22 oedd yn dangos arbedion effeithlonrwydd ychwanegol ac incwm ychwanegol o gael pedwar maes parcio ychwanegol sy'n codi tâl, ynghyd â 5% o arbedion o gostau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau. Disgwylid y byddai'r grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am rai costau craidd.

Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22, oedd yn rhagamcanu gwariant o £1,432,900, gyda'r rhan fwyaf o'r prosiectau yn cael eu hariannu gan gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ac arian grant o ffynonellau eraill, yn benodol y grant Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy.

O ran y cronfeydd wrth gefn a balansau ariannol, rhagwelwyd y byddai'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn codi ar ddiwedd of 2020/21 i £1,008k ac yn parhau ar y lefel hon tan ddiwedd 2021/22. Yn ogystal, byddai'r gronfa wrth gefn derbyniadau cyfalaf yn cael ei defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf pellach yn 2020/21 ac yn 2021/22 ac roedd disgwyl i'r gronfa hon felly ostwng i £165k erbyn diwedd 2021/22, ac roedd disgwyl hefyd i'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ostwng i £2,798k erbyn diwedd yr un cyfnod.

I gloi, dywedwyd bod y cynnydd o 10% yn y Grant Parc Cenedlaethol a'i effaith ar yr Ardoll i'w groesawu gan y byddai'n helpu i wneud iawn am y gostyngiad a gyllidebwyd yn y ffrydiau incwm a gynhyrchir gan yr Awdurdod, yn enwedig o ganolfannau'r Awdurdod, wrth i'r argyfwng Covid-19 barhau i flwyddyn ariannol 2021/22.

Gan ddiolch i'r swyddog am adroddiad clir a defnyddiol, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar nifer o bwyntiau, a rhoddwyd eglurhad iddynt. Cytunodd y Prif Weithredwr i roi ffigur am y nifer o swyddi newydd a grëwyd dros y blynyddoedd diweddar, o'i gymharu â chontractau tymor sefydlog sy'n gysylltiedig â chyllid prosiectau.

Gan nodi'r gwariant cyfalaf sylweddol ar Bwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan, gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir gan yr Awdurdod, a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei

darparu. Hefyd bu trafodaeth ar ddyfodol tebygol cerbydau trydan o'i gymharu â cherbydau hydrogen.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cyllideb Ddrafft 2021/22 yn amodol ar nodi nad oedd y grant Parc Cenedlaethol/Ardoll wedi'i gadarnhau eto, a nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2022/23 i 2025/26.

<u>Yr Ardoll ar Gyngor Sir Penfro</u>
Atgoffodd y Prif Swyddog Ariannol yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, isadran 3, yn pennu'r modd y dylid cyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar Gyngor Sir Penfro (CSP). Roedd y datganiad canlynol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cael ar ddeall bod CSP wedi derbyn swm o arian oddi wrth Lywodraeth Cymru sy'n cyfateb i'r ardoll a godwyd arnynt.

| **<u>Ardoll ar Gyngor Sir Penfro</u>** |
|---|

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £984,677 oddi wrth Gyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

- y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y Cyfrif Refeniw yw — £5,776,423
- gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw — £Dim
- y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei Gyfrif Refeniw — £Dim
- y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol — £Dim

------------

Is-gyfanswm £5,776,423

YN LLAI O

- Adran 72, Grant (GPC) £3,249,433
- Incwm a gredydir i'r Cyfrif Refeniw £1,443,845
- symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod

| | | |
|---|---|---|
| ar gael yn ystod y flwyddyn | - | £4,693,278 |
| | -------------- | ------------- |
| **Yr ardoll sy'n ofynnol** | | **£1,083,145** |

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn awdurdodi ardoll o £1,083,145 (neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru) ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2021/22.

Dangosyddion Cod Materion Ariannol a'r Strategaeth Fuddsoddi 2021/22
Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Materion Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) wrth bennu cyllidebau blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cyngor y Prif Swyddog Ariannol o ran pennu rhaglen buddsoddi cyfalaf sy'n fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, fel y nodwyd yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

Aeth yr adroddiad rhagddo i gyflwyno Strategaeth Fuddsoddi yr Awdurdod a'r Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22 oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol ac yn ategu'r system fenthyca darbodus. Cadarnhaodd mai'r unig fuddsoddiadau oedd gan yr Awdurdod oedd adneuon banc.

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn **MABWYSIADU'R** Dangosyddion Materion Ariannol fel y'u cyflwynwyd, ac yn **CYMERADWYO'R** Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2021/22.

**8. Cynllun Corfforaethol 2021/22**

Dywedwyd bod y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau drafft yn nodi Amcanion Llesiant Corfforaethol yr Awdurdod, sef un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a rhaglen waith cwbl gyson yr Awdurdod ar gyfer 2021/22 fyddai'n ategu'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddorion o ddatblygu'n gynaliadwy, ac roedd y ddogfen yn amlygu'r modd y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori yn y gwaith a wneir i wireddu amcanion yr Awdurdod. Nid oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r amcanion llesiant presennol gan y byddai'r Awdurdod yn mynd ati i adolygu'r amcanion hyn, a'i flaenoriaethau, yn 2021/22.

Roedd y Cynllun a gyflwynwyd yn dal i fod yn gynllun drafft i raddau helaeth a gwahoddwyd yr Aelodau i gymeradwyo'r dull gweithredu ac i wneud sylwadau ar y cynnwys. Roedd swyddogion ar draws yr Awdurdod wedi bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun hyd yn hyn, a byddent yn cael cyfle pellach i wneud sylwadau cyn cymeradwyo'r cynllun yn derfynol, y

disgwylid i hynny ddigwydd yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Awdurdod. Yn y cyfarfod, dywedodd y Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth y byddai cyfeiriadau at y Bartneriaeth Llygredd Golau ac at yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd yn cael eu cynnwys.

Cymeradwyodd yr Aelodau y ddogfen oedd yn eu barn hwy yn ddiddorol ac yn addysgiadol.  Roeddent wedi gwneud sylwadau ar lu o wahanol faterion gan gynnwys bod yn gefnogol i gynnig lleoliadau drwy gynllun Kickstart Llywodraeth y DU, ac awgrymu cyfeiriadau ychwanegol at Greu Lleoedd, Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru, yr amgylchedd morol, ansawdd dŵr, yr Iaith Gymraeg, a chynyddu amrywiaeth.

O ran mapio Ffrydiau Gwaith yr Awdurdod i'r 5 Ffordd o Weithio yn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, awgrymwyd mai 'cynnwys dinasyddion' oedd y gwannaf, a'r gobaith oedd y gellid clustnodi gweithgareddau ychwanegol, yn hytrach na dim ond ymgynghori.  Hefyd mynegwyd peth pryder ynglŷn â'r ystod eang o weithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdod ar hyn o bryd, ac felly croesawyd yr adolygiad arfaethedig o'r blaenoriaethau.

**NODWYD.**

**9. Y Siarter Creu Lleoedd**

Dywedwyd bod Polisi Cynllunio Cymru ynghyd ag ailddrafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol / Cymru'r Dyfodol 2040 yn pwysleisio creu lleoedd ar lefel strategol gyda'r nod o gael gwell cysylltiadau, lleihau teithio, a rhoi hwb i'r gwasanaethau lleol i wella hunaniaeth, cymeriad, ymdeimlad o gymuned a chydberchnogaeth drwy'r system gynllunio. Roedd llesiant yn ganolog i'r broses o greu lleoedd ac yn rhoi pwys ar yr angen i weithio gyda'n gilydd i adeiladu lleoedd gwell. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy gymhwyso agwedd gyfannol i'r broses gynllunio: un oedd yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r perthnasoedd rhwng safle datblygu a'r ardal ehangach.

Roedd y Siarter Creu Lleoedd wedi'i datblygu gan y Bartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Grŵp amlddisgyblaethol oedd y bartneriaeth hon oedd yn cynrychioli proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Roedd y Siarter yn cynnwys chwe egwyddor: Pobl a'r Gymuned, Lleoliad, Hunaniaeth, Symudiadau, Defnydd Cymysg, a Thir y Cyhoedd, ac roedd manylion pellach am yr egwyddorion hyn yn yr adroddiad.

Roedd y Siarter wedi bod yn destun trafod gyda chydweithwyr yn Awdurdodau Parc Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog, ac roedd y swyddogion o'r farn bod eu hegwyddorion eisoes yn cael eu gweithredu drwy'r gwahanol Gynlluniau Datblygu Lleol a'r prosesau gwneud

penderfyniadau.  Nid oedd egwyddorion y Siarter yn gwrthdaro â'r polisïau a'r canllawiau a fabwysiadwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, ond yn hytrach yn eu hategu, ac yn amlygu'r prif ystyriaethau wrth asesu unrhyw gais cynllunio. Roedd rhagor o wybodaeth wedi'i atodi am y modd yr oedd Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn ategu'r Siarter Creu Lleoedd.

Roedd yr Aelodau'n falch o weld y dulliau creu lleoedd ac yn gobeithio y gellid trefnu gweithdy ar y mater hwn.

**PENDERFYNWYD**:
a. cymeradwyo bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn llofnodi'r Siarter Creu Lleoedd;
b. cymeradwyo bod y Siarter yn cael ei llofnodi fel y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru; a
c. bod cydnabyddiaeth ffurfiol yn cael ei roi i'r dulliau o weithredu'r Siarter i ategu'r Polisïau Cynllunio Cenedlaethol a Lleol.

**10. Adolygu'r Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu**
Dywedwyd bod yr adroddiad hwn wedi'i dynnu'n ôl ac y byddai'n cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.

**NODWYD.**

**11. Rheoleiddio Perchnogaeth Tir sy'n ffinio â Traeth Mawr**
Dywedwyd bod perchennog y tir dan sylw yn 1972 wedi cyflwyno llwybr cyhoeddus oedd yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd/de ar draws ei dir, oedd yn rhan o'r llethr arfordirol, er mwyn creu rhan newydd o'r llwybr troed. Ers yr adeg honno, roedd yr Awdurdod wedi dod yn berchennog rhydd-ddaliad ar ddarn o dir cyfagos, ynghyd â chael rheolaeth ar y blaendraeth. Roedd y parseli hyn o dir, gyda'i gilydd, yn bwysig o ran tirwedd, cadwraeth natur, archaeoleg a mynediad cyhoeddus.

Yn ddiweddar daeth i'r amlwg bod perchennog y tir dan sylw wedi cytuno ar delerau i roi perchnogaeth y tir yn rhodd i'r Awdurdod yn 1990. Er bod gwaith ymarferol yr Awdurdod o reoli'r tir dan sylw dros y 30 mlynedd diwethaf fel estyniad i ddaliadau tir yr Awdurdod yn cefnogi bod yr Awdurdod wedi derbyn y rhodd honno ar lefel ymarferol, ond am resymau na wyddys yn union pam, ni chwblhawyd y ddogfennaeth o drosglwyddo'r teitl yn gyfreithiol, ac roedd hyn wedi parhau yn 'fater angof' tan i ddigwyddiadau diweddar dynnu sylw swyddogion at yr amryfusedd hwn. Roedd yr ymholiadau a wnaethant yn ddiweddar i berchennog y tir wedi cadarnhau eu bod yn gofyn am i'r trosglwyddiad cyfreithiol gael ei gwblhau yn awr heb oedi pellach cyn belled â bod yr Awdurdod yn

ysgwyddo eu costau cyfreithiol na fyddai'n fwy na £500. Roedd costau cyfreithiol yr Awdurdod ei hun yn debygol o fod yn swm tebyg.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi caffael rhydd-ddaliad y tir dan sylw drwy ddogfen trosglwyddiad cyfreithiol am bris enwol o £1 a chyfraniad tuag at gostau cyfreithiol y trosglwyddwr hyd at £550.

**12. Tanddaearu Llinellau Pŵer yn Black Tar, Llangwm**

Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr gan fod y Swyddog Ystadau wedi datgan buddiant yn y mater gan ei fod yn byw gerllaw'r cynllun arfaethedig.

Yn sgîl llwyddiant ei fenter o danddaearu llinellau pŵer yn ystod y cyfnod 2010/15, roedd Western Power Distribution (WPD) wedi ymestyn y cynllun i'w gynllun busnes cyfredol dros 8 mlynedd oedd yn cychwyn ar y 1af o Ebrill 2015 drwy ddyrannu £1.3m ychwanegol i ariannu'r gwaith o danddaearu'r rhwydwaith presennol o gyflenwad trydan uwchben y ddaear yr ystyrid ei bod yn fwyaf niweidiol i rinweddau arbennig pedair o'r tirweddau gwarchodedig h.y. AHNE Gŵyr a Dyffryn Gwy a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro.

Erbyn hyn, roedd swyddogion wedi clustnodi cynllun, oedd wedi'i gymeradwyo gan Banel Mentrau Tanddaearu Western Power, i gael gwared ar ran o'r ceblau uwchben a'r polion yn Black Tar (fel y nodwyd yn yr adroddiad) a'i ddisodli gan gyflenwad tanddaear. Yn amodol ar gael caniatâd y tirfeddiannwr, rhagwelwyd y gallai'r gwaith ar y safle y byddai angen i Western Power ei wneud gael ei gwblhau yn ystod y cyfnod 2021/22.

Dywedwyd bod Black Tar wedi'i leoli yn y Parc Cenedlaethol ar lan orllewinol Afon Cleddau. Oherwydd ei gymeriad gwledig, lleoliad yr aber, ei agosrwydd at bentref Llangwm, y llithrfa gyhoeddus a'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus ar lan yr afon ac yn fewndirol, roedd yn lleoliad poblogaidd ar gyfer mynediad i'r cyhoedd a hamdden. Roedd rhan a ddefnyddir yn helaeth o'r rhwydwaith honno o lwybrau cyhoeddus yn croesi cae o dir pori oedd wedi'i wella mewn tirwedd agored ehangach ac yn mynd yn union o dan llinell sbardun foltedd uchel Western Power. Wrth gerdded y llwybr i'r naill gyfeiriad neu'r llall, roedd y llinell sbardun hon yn amlwg yn erbyn awyr agored ac i'w gweld yn glir yn y dirwedd ehangach.

Roedd y swyddogion o'r farn bod y cynllun arfaethedig yn gyfle gwych i sicrhau buddion gweledol parhaol yn un o leoliadau mwyaf eiconig y Parc Cenedlaethol drwy ddefnyddio 100% o gyllid allanol. Hefyd roedd yn cynnig y posibilrwydd o fod yr unfed cynllun tanddaearol ar ddeg a

ddarperir o dan y fenter hon gan Western Power yn ein Parc Cenedlaethol.

Roedd yr Aelodau yn falch o weld cynllun oedd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i dirwedd y Parc Cenedlaethol ac yn gobeithio y gallai mwy o’r cyfryw brosiectau gael eu darparu yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo’r adroddiad a’r papur atodedig ar y meini prawf dewis, ac awdurdodi gwaith parhaus y swyddogion tuag at sicrhau cyflwyno cynllun tanddaearu yn Black Tar cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

[Cyflwynodd y Cynghorydd M Williams ei ymddiheuriad a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

**13. Darparu cyfleuster arlwyo yn y dyfodol ar Draeth Poppit**

Dywedwyd bod yr Awdurdod yn berchen ar ddarn sylweddol o dir ar Draeth Poppit oedd yn dyddio'n ôl i ddiwedd yr 1970au. Yn rhan o’r berchnogaeth honno roedd caffi unllawr ar y traeth mewn man lle mai’r caffi yw’r unig fasnachwr, ac yn gwerthu bwyd/diodydd a nwyddau traddodiadol y traeth megis 'bwced a rhaw'.

Dull yr Awdurdod o reoli’r caffi ar hyd y blynyddoedd oedd prydlesu’r adeilad i denantiaid galwedigaethol yn gyfnewid am incwm rhent. Byddai’r tenantiaid presennol yn gadael yr adeilad ddiwedd mis Mawrth (2021) pan fyddai'n dychwelyd i'r Awdurdod gyda meddiant gwag llawn.

Yn dilyn ymarferiad marchnata agored i glustnodi darpar denantiaid newydd fyddai’n barod ac yn gallu cynnig cyfleuster arlwyo o dan delerau prydles lawn newydd atgyweirio ac yswirio dros 10 mlynedd, roedd 3 pharti â diddordeb wedi'u gwahodd i gyfweliad. Wedi'i farnu yn erbyn meini prawf dethol o gryfder rhent/cyfamod, profiad busnes cyffredinol, profiad penodol o arlwyo, a chyd-destun cymdeithasol ehangach, roedd darpar denant a ffefrir wedi'i glustnodi. Roedd yn fusnes presennol yn gweithredu yn y sector arlwyo yn ardal Aberteifi.

Ar ôl clustnodi darpar denant a ffefrir, amcan nesaf y swyddogion oedd cwblhau'r trafodaethau gyda’r darpar denant a dogfennu'r brydles newydd a ddeilliai o hynny. Byddai'r tenantiaid newydd wedyn yn gallu meddiannu’r caffi a chychwyn ar eu gwaith o gael y lle yn barod ar gyfer dechrau tymor gwyliau haf 2021. Roedd y ddwy ochr o'r farn bod hyn yn amserlen realistig y gellir ei chyflawni.

Roedd rhai Aelodau yn poeni ynghylch hyd y brydles ac yn holi a oedd yr Awdurdod yn ceisio cael bond. Atebodd y swyddogion iddynt ystyried cryfder y cyfamod a hanes blaenorol y busnes, a’u bod yn fodlon

nad oedd angen bond. Nodwyd hefyd mai’r unig risg ariannol i’r Awdurdod o ran y brydles hon oedd risg i’r llif incwm.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar yr egwyddor o ganiatáu buddiant cyfreithiol newydd mewn tir drwy roi prydles galwedigaethol newydd o'r caffi ar Draeth Poppit ar y telerau a amlinellir, a’r trafod terfynol o’r telerau a dogfennau’r brydles yn cael ei ddirprwyo i Brif Weithredwr yr Awdurdod i'w gymeradwyo.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021 heb eu diwygio.